11-14 oed

# Gludedd



ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Lawrlwytho o: rsc.li/3R3P5Jb

# Amcanion dysgu

Yn ystod y wers hon, byddwch yn:

- cymharu gludedd gwahanol hylifau drwy wneud arsylwadau gofalus.
- cymhwyso eich dealltwriaeth o ronynnau i esbonio eich arsylwadau.
- dylunio arbrawf.

# Pa eiriau y byddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio...?



Mêl



Dŵr

Cyflwyniad

# Diffinio gludedd

Mae gludedd yn mesur pa mor anodd yw hi i hylif lifo.



Mae gludedd mêl yn uwch na gludedd dŵr am ei fod yn fwy trwchus neu ludiog na dŵr.



Mae dŵr yn llai gludiog na mêl am fod grymoedd atyniad rhwng gronynnau dŵr yn wannach na'r rhai rhwng gronynnau mêl.


Diffiniad

# Dull

Cymerwch un o'r tiwbiau a ddarperir.


1. Gwnewch yn siŵr bod y swigen ar y brig a bod y tiwb yn cael ei ddal yn fertigol.
2. Trowch y tiwb wyneb i waered yn gyflym a mesurwch yr amser y mae'n ei gymryd i'r swigen gyrraedd y brig.
3. Ailadroddwch y mesuriad hwn ar gyfer pob un o'r samplau.
4. Cwblhewch y tabl sydd wedi'i ddarparu.






1 Cymerwch diwb sampl wedi'i selio ❑


2 Daliwch y tiwb yn fertigol, gan wneud yn siŵr bod y swigen ar y brig ❑



3 Trowch y tiwb wyneb i waered yn gyflym. Dechreuwch y stopwatsh ❑




4 Nodwch yr amser y mae'n ei gymryd i'r swigen gyrraedd y brig ❑




5 Ailadroddwch gamau 1 i 4 ar gyfer pob sampl ❑

**Arbrofion cemeg clasurol**
Gludedd
[rsc.li/3R3P5Jb](rsc.li/3R3P5Jb)

# Tabl canlyniadau

| Hylif | Amser a gymerwyd (e) | | | Amser cymedrig (e) |
|---|---|---|---|---|
| | Prawf 1 | Prawf 2 | Prawf 3 | |
| Dŵr | | | | |
| Olew coginio | | | | |
| Hylif golchi llestri | | | | |
| Ethanol | | | | |
| Siampŵ neu ewyn ymolchi | | | | |
| Mêl | | | | |

# Cwestiynau

1. Nodwch ystyr y gair gludedd.
2. Defnyddiwch eich canlyniadau i nodi'r hylif mwyaf gludiog. Pam wnaethoch chi ddewis eich ateb?
3. Defnyddiwch eich canlyniadau i nodi'r hylif lleiaf gludiog. Pam wnaethoch chi ddewis eich ateb?
4. Tynnwch ddiagram i ddangos sut mae'r gronynnau wedi'u trefnu mewn olew coginio.
5. Disgrifiwch beth sy'n digwydd i'r gronynnau pan fydd sampl o olew coginio yn cael ei harllwys i mewn i badell ffrio.
6. Eglurwch pam mae gludedd dŵr yn is na gludedd ewyn ymolchi.
7. Rhagfynegwch sut y bydd gludedd mêl yn newid wrth i dymheredd y mêl gynyddu. Awgrymwch reswm dros eich ateb.
8. Dyluniwch arbrawf i ymchwilio i'r ffordd y mae'r tymheredd yn effeithio ar ludedd hylif.

# Amcanion dysgu

Yn ystod y wers hon, byddwch yn:

- cymharu gludedd gwahanol hylifau drwy wneud arsylwadau gofalus.
- cymhwyso eich dealltwriaeth o ronynnau i esbonio eich arsylwadau.
- dylunio arbrawf.

**Ydych chi wedi cyflawni'r holl amcanion dysgu?**